**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Medi 3ydd 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Gwynfor Davies, Ifor Edwards, Gwyn Williams, Emlyn Williams

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ann Vaughan, Ian W Griffith, Cynghorydd Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Roedd nifer o aelodau'r cyhoedd yn bresennol ynghyd â Mr Dafydd Chilton, cyfieithydd.

29.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad mewn eitem ar yr Agenda.

29.2 COFNODION – cynigwyd gan Diane Roberts ac eiliwyd gan Ann Vaughan a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Gorffennaf 30ain yn gofnod cywir.

29.3 MATERION YN CODI-
29.3.1 CWMNI AFON GOCH – adroddodd y Clerc bod cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu i drafod rhentu Tyn y Caeau, Llangernyw ar Fedi 9fed yn Llangernyw.
29.3.2 ARHOSFAN BWS – gwelwyd gopi o 'Gwytherin Enhancement Scheme' Chwefor 1984 lle ceir gwybodaeth am nifer o welliannau yn y pentref yn cynnwys adeiladu'r wal yn y sgwâr.. PENDERFYNWYD edrych mewn i berchnogaeth y wal yng nghanol y pentref.
29.3.3 Cafwyd llythyr gan Jim Jones, Cyngor Conwy yn nodi bod ein cais am gymorth ariannol tuag at arwyddion hybu e.e. yr hen ywen wedi eu pasio ymlaen i gael eu prisio.

29.4 MATERION CYNLLUNIO
29.4.1 Apê l Cynllunio – 0/40329 Codi tyrbin sengl (gyda gallu cynhyrchu hyd at 500kw ac uchder blaen uchafswm o 67m) ynghyd â datblygiad ategol yn Cefn Groes Bach, Llansannan. PENDERFYNWYD ein bod yn dal i gadw at ein penderfyniad o wrthwynebu'r cais.

29.4.2 Cais Rhif 0/40946 Codi tyrbin gwynt 40 medr o uchder, 54.7 metr i frig y llafn uchaf, gan gynnwys cwpwrdd rheoli a cheblau cysylltiedig yn Hendre Llwyn y Maen, Llanfairtalhaiarn gan Mr R L Crossley. Daeth nifer o aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a rhoi sylwadau ar y cais hwn. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol:

1. Gwelediad a maint y datblygiad - byddai'r tyrbin i'w gweld o bell ac mae'r rhy fawr i'r ardal ac yn agos at y briffordd.
2. Mae'r safle mewn ardal tirwedd arbennig lle mae llawer o fywyd gwyllt megis cudyll coch, bwncath a chreyr glas.
3. Mae pryder am y sŵn fydd yn dod o'r tyrbin ac yn amharu ar drigolion lleol.
4. Ofnir os caniateir un tyrbin y bydd yn agor y drws i fwy o dyrbinau ac o bosib 'fferm wynt'.
5. Nid yw ffyrdd a phontydd hynafol yr ardal yn ddigon cryf i ddal pwysau loriau trymion fydd yn cario deunyddiau i'r safle.
6. Mae llawer o wrthwynebiad i'r cais gan drigolion yr ardal a daeth hyd at 40 o bobl i gyfarfod y Cyngor Cymuned i ddatgan eu pryder.

7.  Mae digon o ynni gwynt yng Nghymru ar gyfer anghenion y wlad fel y mae heb i ni droi yn ardal ddiwydiannol.
8.  Mae'n nodi yn y cais nad yw'r datblygiad ger 'public land' ond mae  hynny'n anghywir.

29.4.3  CAIS RHIF 0/40996 Gosod tŵr telegyfathrebu 15m gyda 6 erial a 2 loeren yn sownd i'r tŵr, hefyd 6 cabinet ar lefel daear o fewn y compownd gyda ffens o'i amgylch yn Pen y Fron, Gwytherin gan Nick Allan, Harlequin Group.  Darllenwyd lythyr a ddaeth i law gan aelod o ardal Pennant yn gofyn am well derbyniad ffôn symudol yn Pennant.  PENDERFYNWYD gofyn i'r cwmni ddod i esbonio'r cais yng Ngwytherin yn fuan.  Hefyd i ofyn i'r Adran cynllunio am estyniad amser i drafod y cais.

29.5  Daeth cais gan Heulwen Roberts i ddefnyddio ychydig o ysgrifau o'r llyfr 'Hanes Bro Cernyw' yn ei gwaith ar hen ysgol Gwytherin.  PENDERFYNWYD i roi caniatad.

29.6  GWEITHIWR I'R WEFAN – cynigiodd Mr Arfon Parry wneud y gwaith o osod pethau ar y wê  am gost o £8 yr wythnos.  PENDERFYNWYD i gytuno ac i dreialu'r gwaith am chwe mis ac i ofyn iddo fo gysylltu â'r cymdeithasau i gael manylion.

29.7   RADIO CYMRU – derbyniwyd llythyr gan OFCOM drwy law Mr David Jones AS yn nodi mai'r BBC sy'n gyfrifol am ei wasanaethau FM ac felly ni all ein helpu ond rhoddodd gyfeiriad BBC ym Mangor er mwyn i bobl fedru cwyno am dderbyniad radio a gollwyd yn ddiweddar.  PENDERFYNWYD cysylltu â chwmni Harlequin Group ac OFCOM a'r BBC i weld a oes posib defnyddio'r mast arfaethedig yn Pen y Fron i helpu derbyniad Radio Cymru yn yr ardal.

29.8  CYNIGION I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU – aethpwyd drwy'r cynigion a dderbyniwyd ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol.

29.9  HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU – derbyniwyd manylion cyrsiau yn y Gogledd.

29.10  GOHEBIAETH – PENDERFYNWYD anfon yr wybodaeth am Ymddiriedolaeth y Bobl at y Clwb Peldroed, Aelwyd Bro Cernyw, Bwrlwm Bro, Ysgol Bro Cernyw.

29.11  PRYNU CYMUNEDOL – y Clerc i anfon yr wybodaeth i'r aelodau.

29.12  DATGANIAD BLYNYDDOL- derbyniwyd y Datganiad gan yr Archwilwyr ac nid oedd dim o'i le.  PENDERFYNWYD cyfrannu £25 i Gwenda Cooper am wneud y gwaith.

29.13  MATERION LLEOL
29.13.1  Angen sylw i fainc Pandy Tudur – pasio i holi Wil Evans, Kevin Roberts a Dyfrig Howatson a gofyn iddynt roi pris am wneud gwaith cynnal a chadw ar y dair mainc.
29.13.2  Tyfiant yn dod drosodd i'r llwybr rhwng Yr Hen Hydd a'r Fynwent.
29.13.3 Llechi yn dod i ffwrdd o do yr Hen Efail.
29.13.4 Angen peintio llinellau gwynion wrth Capel Cefn Coch a ger Rhos Isaf.
29.13.5  Angen tario rhwng Plas yn Trofarth a Gell ond deallwyd ei bod yn mynd ei gael ei tharmacio.
29.13.6 Derbyniwyd cwyn y bydd y post yn cael ei gasglu unwaith y dydd mewn rhai ardaloedd.

29.13.7 Gwrych rhwng Stad Glan Collen a’r ysgol angen ei dorri.

BILIAU

| | |
|---|---|
| D Evans (Pedwerydd toriad Mynwentydd) | £360.00 |
| YHU Hacker Young (Archwilwyr) | £246.00 |
| Gwenda Cooper | £25.00 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm

*Cymeradwywyd y Cofnodion* *Arwyddwyd* ............................ *Dyddiad* ......................................